# Diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru
# Chwefror 2021

Dyma'r diweddaraf mewn cyfres o ddiweddariadau chwarterol, ar gyfer defnyddwyr ystadegau yng Nghymru, ar ein datblygiadau, ein hymgyngoriadau a'n cynlluniau diweddaraf.

Gellir gweld rhestr lawn o'n cyhoeddiadau mwyaf diweddar ar ein calendr i ddod.

## Cyffredinol

Mae'n bleser gennym gadarnhau bod Stephanie Howarth wedi cael ei phenodi'n Brif Ystadegydd Cymru ar ôl ymarfer recriwtio agored yn ddiweddar.

## Ymateb i'r Coronafeirws (COVID-19)

Rydym wedi parhau i addasu ein gweithrediadau arferol er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cefnogi ymateb y llywodraeth i bandemig y Coronafeirws, a hefyd ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol lle mae ei hangen fwyaf. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r blog Digidol a Data i roi gwybodaeth am y ffordd rydym yn gweithredu.

Rydym yn parhau i gyhoeddi ystod estynedig o setiau data a datganiadau rheolaidd newydd i roi gwybodaeth i'r cyhoedd yn ystod y pandemig. Mae'r rhain i gyd ar gael ar ein tudalen Ystadegau ac ymchwil cysylltiedig â Coronafeirws (COVID-19). Ers mis Rhagfyr, rydym hefyd wedi dechrau llunio setiau data a datganiadau newydd neu fwy rheolaidd ar y canlynol:

- Achosion cadarnhaol o'r coronafeirws a gafodd eu hadrodd i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru
- Rhaglen frechu COVID-19 (cyflenwadau a'u dosbarthu)

Rydym hefyd wedi ehangu ein datganiad ar Hysbysiadau i Arolygiaeth Gofal Cymru yn ymwneud â COVID-19 mewn cartrefi gofal oedolion, i gynnwys hysbysiadau o achosion yn ogystal â'r wybodaeth am farwolaethau.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn cyhoeddi darlun cynhwysfawr o achosion newydd, marwolaethau, a brechiadau bellach, a gofnodwyd yng Nghymru am 12pm bob dydd. Cyhoeddir y rhain ar ddangosfwrdd gwyliadwriaeth gyflym COVID-19. Mae'r Prif Ystadegydd hefyd wedi cyhoeddi blog sy'n cael ei ysgrifennu ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gynlluniau ar gyfer ystadegau brechu COVID-19.

## Yr economi a'r farchnad lafur

Rydym wedi parhau i ddiweddaru ystadegau economaidd allweddol bob mis, gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau data er mwyn rhoi'r darlun diweddaraf o'r effaith y mae'r coronafeirws yn ei chael ar y farchnad lafur yng Nghymru. Rydym hefyd yn cyhoeddi pennawd misol ar y cynllun cadw swyddi coronafeirws a'r cynllun cymorth incwm hunangyflogaeth fel y'u cyhoeddir gan CThEM.

Mae datganiadau eraill yn dechrau dangos effaith pandemig y coronafeirws ar yr economi yng Nghymru, megis cynnyrch domestig gros rhanbarthol rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2020 a dangosyddion allbynnau tymor-byr rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2020.

Ym mis Ionawr gwnaethom gyhoeddi'r data diweddaraf ar y farchnad lafur o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2020 yn ogystal ag amcangyfrifon 2019 o fusnesau newydd a busnesau sydd wedi cau yng Nghymru.

Os hoffech gysylltu, e-bostiwch ystadegau.economi@llyw.cymru

# Addysg

### Ysgolion

Rydym wedi parhau i gyhoeddi data wythnosol ar ddisgyblion sy'n bresennol mewn ysgolion a gynhelir.

Ar 3 Rhagfyr 2020, gwnaethom gyhoeddi'r data terfynol ar ganlyniadau arholiadau haf 2020 a oedd yn seiliedig ar raddau a aseswyd gan ganolfannau yn bennaf.

Ataliwyd y gwaith o gasglu data statudol gan ysgolion dros dro ar ôl y cyhoeddiad ar 4 Ionawr y byddai pob ysgol ond ar agor i ddysgwyr sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol. Mae hyn yn golygu na fu ymarfer casglu data ym mis Ionawr 2021 ar gyfer y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, y Cyfrifiad Disgyblion sy'n Derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol a'r Cyfrifiad Ysgolion Annibynnol. Ni wnaed unrhyw benderfyniadau eto o ran pryd y bydd yr ymarferion casglu hyn yn cael eu cynnal.

### Addysg drawsbynciol ac ôl-16

Ar ddechrau'r flwyddyn, gwnaethom gyhoeddi erthygl ar flog Digidol a Data Llywodraeth Cymru yn crynhoi'r newidiadau a wnaed gennym i'n cyhoeddiadau ystadegol yn ystod pandemig y Coronafeirws. Gwnaethom hefyd ganolbwyntio ar adrodd ar berfformiad, gan amlinellu ein cynlluniau ar gyfer erthygl ystadegol, sef 'Deilliannau dysgwyr mewn addysg ôl-16 y mae pandemig y coronafeirws yn effeithio arnynt' y bwriedir ei chyhoeddi ym mis Mawrth 2021.

Yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth, rydym hefyd yn bwriadu cyhoeddi ystadegau blynyddol ar addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20. Byddwn hefyd yn diweddaru ein dangosfwrdd chwarterol

prentisiaethau a ddechreuwyd i gynnwys y data terfynol ar gyfer blwyddyn academaidd lawn 2019/20.

Mae ein cyhoeddiad misol ar wybodaeth reoli am brentisiaid a roddwyd ar ffyrlo neu a ddiswyddwyd yn ystod pandemig coronafeirws (COVID-19) yn parhau. Er na chynhaliwyd yr un lefel o weithgarwch sicrhau ansawdd ag ystadegau swyddogol ar y data hyn, mae'n cynnig amcan amserol o'r graddau yr effeithiwyd ar brentisiaid gan y pandemig.

Ym mis Ionawr, gwnaethom gyhoeddi ein pennawd ystadegol chwarterol ar bobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET). Mae'r diweddariad hwn yn cynnwys data ar gyfer ein mesur mwy amserol ond llai ystadegol gadarn o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2020. Ceir rhagor o wybodaeth am ein mesurau o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn ein canllaw Deall y gwahanol ffynonellau ystadegau ar bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yng Nghymru.

Er mwyn rhoi adborth neu gael unrhyw wybodaeth bellach, e-bostiwch ystadegau.addysgol16@llyw.cymru

### Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr

Rydym wedi cyhoeddi ein penawdau blynyddol Myfyrwyr mewn addysg uwch a Staff mewn sefydliadau addysg uwch. Rydym hefyd wedi dechrau cyhoeddi Achosion cadarnhaol o'r coronafeirws a gafodd eu hadrodd i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn wythnosol.

Byddem yn gwerthfawrogi unrhyw adborth sydd gennych ar ein cyhoeddiadau presennol, neu'r hyn yr hoffech ei weld yn y dyfodol. Cysylltwch â ni drwy anfon e-bost i'r blwch post ar gyfer Ystadegau ar Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr.

## Tai

Cynhaliwyd cyfarfod defnyddiol o'r **Grŵp Gwybodaeth am Dai** ar 28 Ionawr. Roedd cryn nifer yn bresennol. Rhoddodd cydweithwyr o SYG amrywiaeth o gyflwyniadau ar Gyfrifiad 2021 a'r trafodaethau eang eu cwmpas ar anghenion data Cymru.

Oherwydd y pandemig, ni fu modd cyhoeddi **ystadegau tai fforddiadwy** 2019-20 yn ystod hydref 2020 yn ôl y bwriad. Fodd bynnag, ar 3 Chwefror 2021, gwnaethom gyhoeddi prif ystadegau dros dro ar gyfer 2019-20. Mae'r ystadegau dros dro hyn yn cynnwys amcangyfrifon lefel uchel o ddarpariaeth tai fforddiadwy ar gyfer 2019-20. Byddwn yn cyhoeddi ystadegau terfynol 2019-20 ar 11 Mawrth.

Ar 5 Tachwedd 2020, gwnaethom ddechrau cyhoeddi gwybodaeth reoli fisol am **ddarpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan**. I ddechrau, gwnaethom gyhoeddi'r data hyn ar lefel Cymru yn unig.

Ar 4 Chwefror 2021, gwnaethom ddechrau cyhoeddi amcangyfrifon misol o gysgu allan yn ôl awdurdod lleol ar gyfer mis Tachwedd 2020. Efallai y bydd yr amcangyfrifon hyn o ddiddordeb i'r rhai sy'n defnyddio'r cyfrif blynyddol o gysgu allan (a ataliwyd dros dro ym mis Tachwedd 2020). Cyn cyhoeddi'r amcangyfrifon hyn, gwnaethom hysbysu'r awdurdodau lleol o'n bwriad, gan roi cyfle iddynt wneud sylwadau.

Noder bod yr amcangyfrifon hyn o gysgu allan yn cael eu llunio mewn ffordd wahanol i'r cyfrif blynyddol o gysgu allan. Felly, nid ydym yn argymell cymharu'r amcangyfrifon hyn yn uniongyrchol â'r cyfrif o gysgu allan.

Ar 25 Chwefror 2021, byddwn yn cyhoeddi'r rhifyn nesaf o'r wybodaeth reoli fisol (data Rhagfyr 2020).

### Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18 (ACTC)

Mae ein datganiadau ystadegol ar gael ar ein tudalennau gwe.

Cysylltu â ni drwy'r blwch post os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu geisiadau.

## Iechyd

### Cyhoeddiadau

Mae ein holl ddatganiadau ystadegol ar y wefan ystadegau ac ymchwil.

Am ragor o wybodaeth, e-bostiwch ystadegau.iechyd@llyw.cymru

### Gweithgarwch y GIG

Parheir i gyhoeddi data misol ar berfformiad a gweithgarwch y GIG, ac mae hynny'n parhau i ddangos effaith y coronafeirws ar amseroedd aros y GIG.

Ym mis Chwefror, cyhoeddwyd y data cyntaf o'r ymarfer casglu ar y llwybr canser sengl newydd. Gwnaed y newid hwn i gyd-fynd â'r targed ar gyfer y llwybr canser sengl newydd a gyflwynwyd ar 18 Tachwedd 2020, a oedd yn weithredol o 1 Rhagfyr 2020.

Caiff y data hyn ar lefel cleifion eu casglu gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru drwy broses casglu data ganolog newydd ac fe'i dynodwyd yn broses arbrofol.

Arweiniodd y newid hwn at roi'r gorau i'r targedau a'r broses casglu data gysylltiedig ar gyfer cleifion sydd newydd gael diagnosis drwy'r llwybrau brys a heb fod drwy'r llwybrau brys.

### Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n prosesu data gan awdurdodau lleol ar gyfer Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth ar lefel unigol ar gyfer 2019-20 ac yn paratoi i'w cyhoeddi. Mae gofynion casglu data a'r amserlen gysylltiedig ar gyfer cyflwyno data ar gyfer blwyddyn adrodd 2020-21 wrthi'n cael eu pennu'n derfynol. Mae grwpiau wedi dechrau adolygu'r Cyfrifiadau Plant a datblygu Cyfrifiad Oedolion sy'n Derbyn Gofal a Chymorth i Gymru.

## Gwyddor Data ac Ymchwil Data Gweinyddol

Bydd yr uned gwyddor data yn cyhoeddi cyfres o flogiau dros y misoedd sydd i ddod. Caiff y rhain eu cyhoeddi ar wefan y blog Digidol a Data.

Mae nifer o gyhoeddiadau wedi cael eu paratoi gan Ymchwil Data Gweinyddol – Cymru yn ystod y pandemig. Yn fwyaf diweddar, cyhoeddwyd diweddariad ar nifer y rhai sydd ar y rhestr o gleifion a warchodir.

Os hoffech gysylltu, e-bostiwch ADRUWales@llyw.cymru neu DataScienceUnit@llyw.cymru

## Arolwg Cenedlaethol Cymru

### Arolwg dros y ffôn chwarterol 2020-21

Rydym bellach wedi newid ein harolwg dros y ffôn ar gyfer 2020-21 o ddatganiadau misol i ddatganiadau chwarterol, a chaiff ein canlyniadau chwarterol cyntaf ar gyfer Hydref-Rhagfyr 2020 eu cyhoeddi ar 4 Mawrth. Cyhoeddir datganiadau misol blaenorol o fis Mai i fis Medi 2020 ar ffurf datganiadau byr ac mae'r canlyniadau wedi'u cynnwys yn y Dangosydd canlyniadau misol.

Cysylltwch â heulwen.hudson@llyw.cymru os bydd gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys yr arolygon chwarterol.

### Adroddiadau manylach ar ganlyniadau 2019-20

Cyhoeddwyd adroddiad ystadegol Cael gafael ar wybodaeth iechyd a lles, a oedd yn defnyddio data arolwg 2019-20, ar 28 Ionawr. Cyhoeddwyd adroddiad ar Sgiliau rhyngrwyd a gwasanaethau sector cyhoeddus ar-lein ar 11 Chwefror ac rydym yn bwriadu cyhoeddi allbwn arall ynglŷn â Gofalu yn ystod y gwanwyn. Mae'r tîm yn parhau i weithio ar gyfuno data o nifer o fisoedd a, lle y bo modd, â setiau data 2019-20 a 2018-19 a fydd yn galluogi gwaith dadansoddi manylach.

## Cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb

### Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)

Y flwyddyn hon, byddwn yn adolygu data dangosyddion MALIC ac yn penderfynu pa rai, os o gwbl, y gellir eu diweddaru erbyn diwedd y flwyddyn. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i gyhoeddi allbynnau dilynol ar gyfer MALIC 2019. Cyfeiriwch at “MALIC 2019: rhestr o allbynnau” ar gyfer rhestr lawn o gyhoeddiadau MALIC yn 2019, gan gynnwys yr hyn sydd i ddod. Flwyddyn ar ôl cyhoeddi MALIC 2019, gwnaethom gyhoeddi blog data ar y ffordd y mae MALIC 2019 yn ein helpu i dynnu sylw at anghydraddoldeb flwyddyn yn ddiweddarach.

Ar 10 Rhagfyr 2020, cyhoeddwyd yr Ystadegau Gwladol 'Mynegeion Amddifadedd 2019: meysydd incwm a chyflogaeth wedi'u cyfuno ar gyfer Cymru a Lloegr' ar gov.uk. Mae'r allbynnau yn cynnwys taenlen o gyfraddau amddifadedd incwm a chyflogaeth ac yn gosod ardaloedd bach ledled Cymru a Lloegr yn eu trefn, gan adlewyrchu'r sefyllfa yn 2015-16.

Mae'r data yn wahanol i'r mesurau swyddogol ar wahân o amddifadedd cymharol yng Nghymru a Lloegr ac yn eu hategu.

Mae data MALIC 2019 ar fynediad trefi i wasanaethau, mannau gwyrdd a band eang, ynghyd ag ystadegau ar iechyd meddwl, ymhlith y data newydd a gynhwyswyd yn y diweddariad i Deall Lleoedd Cymru a lansiwyd gan y Sefydliad Materion Cymreig ar 9 Rhagfyr 2020.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y stori newyddion ar ei wefan.

Os hoffech gael eich hysbysu pan gaiff gwybodaeth ddiweddaraf MALIC ei chyhoeddi, e-bostiwch ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru i danysgrifio. Gallwn hefyd ddarparu sesiynau gwybodaeth ynglŷn â MALIC 2019. Os hoffech drefnu sesiwn o'r fath i'ch sefydliad neu'ch rhwydwaith cysylltwch â ni i drafod hyn.

## Masnach

Mae ail flwyddyn Arolwg Masnach Cymru (data sy'n ymwneud â 2019) bellach wedi'i chwblhau a chaiff y canlyniadau eu cyhoeddi yn y gwanwyn. Nod yr arolwg yw gwella dealltwriaeth o lifau masnach i mewn i fusnesau ac allan o fusnesau yng Nghymru.Mae hyn yn cynnwys nwyddau a gwasanaethau sy'n symud yn y DU ac yn rhyngwladol. Rydym wrthi'n caffael cam arall o'r arolwg. Bydd hwn yn casglu data sy'n ymwneud â 2020, a fydd yn cynnwys dechrau pandemig y coronafeirws (COVID-19) a hefyd y cyfnod cyn ymadael â'r UE.

Cyhoeddodd SYG adroddiad ar Patrymau masnach Cymru yn ôl cyrchfannau, cynnyrch a nodweddion busnes: 2019 ar 18 Rhagfyr, a hynny ar gais Llywodraeth Cymru.

## Trafnidiaeth

Ym mis Rhagfyr, gwnaethom gyhoeddi ein datganiad blynyddol ar droseddau moduro ar gyfer 2019, yn ogystal ag amcangyfrifon o deithio llesol yng Nghymru rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020. Ym mis Ionawr, gwnaethom gyhoeddi amcangyfrifon 2019 o cludo nwyddau ar ffyrdd a chludiant môr.

## Y Gymraeg

Rhwng 14 Medi a 9 Hydref 2020, cynhaliodd Llywodraeth Cymru arolwg o grwpiau cymunedau Cymraeg yng Nghymru gyda'r nod o ddeall effaith COVID-19 ar eu gweithgareddau ers y cyfyngiadau symud cyntaf ym mis Mawrth 2020. Cyhoeddwyd canfyddiadau'r arolwg ar wefan Llywodraeth Cymru ar 10 Rhagfyr.

Ddydd Mawrth 12 Ionawr, cyhoeddwyd Canlyniadau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth am y Gymraeg ar gyfer y flwyddyn o Hydref 2019 i Fedi 2020. Oherwydd newid i'r ffordd y cynhelir yr arolwg ers mis Mawrth 2020 (dros y ffôn yn unig bellach), canfu SYG fod math ychydig yn

wahanol o ymatebydd yn cymryd rhan yn yr arolwg. Felly, mae wedi newid y ffordd y mae'n pwysoli'r arolwg er mwyn cyfrif am hyn, ac wedi diwygio amcangyfrifon ei harolwg ar gyfer y ddau chwarter blaenorol, Gorffennaf 2019 i Fehefin 2020 ac Ebrill 2019 i Fawrth 2020.

## Poblogaeth a demograffeg

Cyhoeddir diweddariad demograffeg chwarterol ar wahân sy'n cynnwys popeth sy'n ymwneud â'r boblogaeth.

## Manylion cyswllt ar gyfer ystadegau Llywodraeth Cymru

### Ymholiadau cyffredinol ynghylch ystadegau

E-bost: desg.ystadegau@llyw.cymru

Ffôn: 03000 255050

### Pwnc-benodol

Cysylltiadau ar gyfer ystadegau

### Twitter

YstadegauCymru

### Cylchlythyr electronig a gwasanaeth hysbysiadau Llywodraeth Cymru

Newyddion a hysbysiadau

### Ymholiadau gweinyddol

E-bost kasadmin@llyw.cymru